



## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**

### **BETH SYDD WEDI'I GYNNWYS YN YR HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN?**

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru ('EBC') yn un o'r enwadau Cristnogol mwyaf yng Nghymru. Amcanion EBC yw addoli Duw a lledu Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist. Fel Eglwys Gyfundebol, rheolir EBC gan un Gymdeithasfa sy'n cyfarfod mewn tair Talaith, a'r Gymanfa Gyffredinol, ei Byrddau, ei Hadrannau a'i His-bwyllgorau yn y materion hynny sydd wedi'u datganoli i'r Gymanfa gan y Gymdeithasfa.

Mae'r ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd") yn gosod allan wybodaeth yn ymwneud â'r ffordd mae EBC yn defnyddio gwybodaeth bersonol am unigolion rydym yn delio â nhw, gan gynnwys aelodau a blaenoriaid yr eglwys, gwrandawyr, pobl sy'n gysylltiedig ag EBC, pobl sy'n cyfrannu i EBC, a phobl sy'n defnyddio'n gwefan. Mae hefyd yn gosod allan wybodaeth am yr hawliau sydd gan unigolion mewn cysylltiad â'u gwybodaeth bersonol ac amrywiol faterion eraill sy'n ofynnol dan gyfraith diogelu data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

<b>PENNAWD ADRAN</b>	<b>RHIF TUDALEN</b>
<b>1. I BWY MAE'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN YN BERTHNASOL?</b>	<b>3</b>
<b>2. EIN HYMAGWEDD AT BREIFATRWYDD</b>	<b>4</b>
<b>3. SUT BYDDWN YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH BERSONOL?</b>	<b>6</b>
<b>4. YMWNEUD Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL</b>	<b>24</b>
<b>5. GWYBODAETH AM SYSTEM GWNEUD PENDERFYNIADAU YN AWTOMATIG</b>	<b>24</b>
<b>6. PRYD BYDDWN YN RHANNU'CH GWYBODAETH BERSONOL GYDA PHOBL ERAILL?</b>	<b>24</b>
<b>7. AMGYLCHIADAU PAN FYDDWN YN ANFON EICH GWYBODAETH BERSONOL Y TU ALLAN I AEE</b>	<b>27</b>
<b>8. SUT YDYM YN CADW'CH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL?</b>	<b>27</b>
<b>9. PA HAWLIAU SYDD GENNYCH DAN GYFRAITH DIOGELU DATA?</b>	<b>28</b>
<b>10. PRYD A SUT GALLWCH CHI DYNNU'CH CANIATÂD YN ÔL?</b>	<b>31</b>
<b>11. SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI, A PHWY SY'N GORUCHWYLIO EIN BOD YN CYDYMMFFURFIO Â CHYFRAITH DIOGELU DATA?</b>	<b>31</b>
<b>12. HAWL I GWYNO WRTH SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH</b>	<b>31</b>
<b>13. NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD PREIFATRWYDD</b>	<b>31</b>



## 1. I BWY MAE'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN YN BERTHNASOL?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i:

- Aelodau (gweler 3.1);
- Blaenoriaid a Deiliaid Swyddi (gweler 3.2);
- Cyfranwyr (gweler 3.3);
- Unigolion sy'n gysylltiedig ag EBC (gweler 3.4);
- Aelodau o eglwysi eraill (gweler 3.5);
- Pobl sy'n hurio adeiladau eglwysi gan gynnwys tenantiaid (gweler 3.6);
- Unigolion sy'n cysylltu â ni gydag ymholiadau/cwynion (gweler 3.7);
- Unigolion sy'n defnyddio'n gwefan (gweler 3.8);
- Unigolion sy'n ymddangos yn ein cylchlythyrau neu erthyglau (gweler 3.9); ac
- Unigolion yr ydym yn eu cydnabod yn ariannol am ddarparu gwasanaethau inni (gweler 3.10)

## 2. EIN HYMAGWEDD AT BREIFATRWYDD

Rydym yn ystyried bod eich preifatrwydd chi yn fater difrifol ac rydym am ichi deimlo'n hyderus fod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn unol â chyfraith diogelu data sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr

Dan gyfraith diogelu data, pan fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol byddwn yn gweithredu fel rheolwr data. Ystyr hyn yn ei hanfod yw y byddwn yn gwneud penderfyniadau am y ffordd rydym am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol a pham.

Isod mae crynodeb o'r prif reolau sy'n gymwys inni dan gyfraith diogelu data pan ddefnyddiwn eich gwybodaeth bersonol:

1.	Rhaid inni fod yn agored ynglŷn â sut y bwriadwn ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, a rhaid inni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn deg. Mae darparu gwybodaeth breifat i unigolion (fel yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn un agwedd sy'n ein helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon.
2.	<p><b>Rhaid defnyddio'ch gwybodaeth bersonol dim ond os oes un o'r seiliau cyfreithiol sydd wedi'u gosod allan mewn cyfraith diogelu data yn gymwys. Mae'r seiliau cyfreithiol yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich bod wedi caniatáu inni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol;</li> <li>• Bod angen inni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni contract rhyngom;</li> <li>• Bod gennym ni (neu rywun arall) reswm dilys dros fod eisiau defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ac na fyddai'n annheg ichi petai eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i'r diben hwnnw. Gelwir hyn yn fater o gael "buddiannau dilys", a rhaid inni bwyso a mesur eich hawliau a'ch buddiannau cyn y gallwn ddibynnu ar y sail hon;</li> <li>• Bod angen inni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.</li> </ul>
3.	<p><b>Rhaid inni ddefnyddio rhai mathau o wybodaeth bersonol (megis gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd person, ei darddiad ethnig neu ei grefydd) dim ond os gallwn hefyd fodloni un o'r amodau sydd wedi'u gosod allan mewn cyfraith diogelu data. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich bod wedi rhoi caniatad penodol inni ddefnyddio'r wybodaeth;</li> <li>• Bod angen inni ddefnyddio'r wybodaeth yn ystod gweithgareddau cyfreithlon EBC ac nad yw'r wybodaeth yn cael ei datgelu y tu allan i EBC;</li> <li>• Eich bod wedi gwneud y wybodaeth yn hysbys;</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod angen inni ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu fuddiannau hanfodol rhywun arall;</li> <li>• Bod angen inni ddefnyddio'r wybodaeth mewn cysylltiad â hawliad cyfreithiol.</li> </ul>
4.	Rhaid inni rannu'ch gwybodaeth bersonol gydag eraill dim ond os bydd gennym sail gyfreithiol dros wneud hynny (gweler pwynt 2 uchod) a/neu (mewn cysylltiad â gwybodaeth bersonol sensitif) os gallwn fodloni amod (gweler pwynt 3 uchod).
5.	<b>Yn gyffredinol, rhaid inni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol dim ond at y dibenion penodol rydym wedi dweud wrthych amdanynt. Os byddwn am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion eraill, bydd angen inni gysylltu â chi eto i ddweud wrthych am hyn.</b>
6.	Rhaid inni beidio â chadw mwy o wybodaeth bersonol nag sydd ei hangen arnom at y dibenion rydym wedi dweud wrthych amdanynt, a rhaid inni beidio â chadw'ch gwybodaeth bersonol yn hirach nag sydd eisiau i'r diben hwnnw (gelwir yn "gyfnod cadw"). Rhaid inni hefyd waredu'n ddiogel unrhyw wybodaeth nad oes arnom ei hangen mwyach.
7.	Rhaid inni sicrhau bod gennym fesurau diogelwch priodol i warchod eich gwybodaeth bersonol.
8.	Rhaid inni weithredu'n unol â'ch hawliau dan gyfraith diogelu data (gweler Adran 9).
9.	Rhaid inni beidio â throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop ("AEE") oni fydd dulliau diogelu penodol ar waith. Un dull diogelu felly yw bod y data personol yn cael eu trosglwyddo dim ond i wlad sydd wedi'i chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd fel gwlad a chanddi lefel o gyfraith diogelu data derbyniol, neu os nad yw hyn yn gymwys byddwn yn gofyn am eich caniatâd i drosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i AEE.

### 3. SUT BYDDWN YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH BERSONOL?

Bydd y ffordd y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnyn nhw, pa mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol a manylion eraill yn dibynnu ar bwy ydych chi a pham mae arnom angen eich gwybodaeth bersonol yn y lle cyntaf.

Yn yr adran hon rydym yn darparu gwybodaeth breifatrwydd benodol yn ymwneud â'r gwahanol gategoriâu o unigolion mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn gymwys iddyn nhw.

#### 3.1 AELODAU

<p><b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn yn ei defnyddio</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif teleffon a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>• Manylion Eich Cyfrif Banc;</li> <li>• A ydych yn talu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol;</li> <li>• Eich cysylltiad ag EBC (sy'n datgelu'ch credoau crefyddol).</li> <li>• Gwybodaeth am eich iechyd.</li> <li>• Eich ffotograff, a/neu recordiad awdio a/neu fideo ohonoch wedi'i wneud yn ystod gweithgaredd eglwys, digwyddiad neu gyfarfod i'r graddau y gellir eich adnabod chi.</li> </ul>
<p><b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darperir y wybodaeth gennych chi i'ch eglwys leol.</li> </ul>
<p><b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol o ran Aelodau; ac i roi gwybod ichi am ddigwyddiadau a gweithgareddau o fewn yr eglwys; i ddarparu gofal bugeiliol; i anfon ceisiadau o gwmpas am weddïau; ac i nodi eitemau newyddion, e.e. mewn cylchlythyron, ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol er mwyn prosesu'ch cyfraniadau ariannol (un ai fel un cyfraniad unigol neu gyfraniad ariannol rheolaidd) ac i gael unrhyw ad-daliadau treth drwy gymorth rhodd.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio manylion eich cyfrif banc mewn cysylltiad ag unrhyw gyfraniadau a wneir gennych;</li> <li>• Byddwn yn cofnodi'ch enw a'r ffaith eich bod yn Aelod o EBC;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r ffaith eich bod yn Aelod at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<p><b>Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd eich enw'n cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol eich eglwys leol.</li> <li>• Gallwch ymddangos mewn cylchlythyr lleol neu genedlaethol at aelodau (e.e. Goleuad, Treasury), a all gael ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i werthu hefyd i'r cyhoedd.</li> <li>• Gallwch ymddangos mewn recordiad awdio a/neu fideo o weithgaredd, digwyddiad neu gyfarfod eglwys, a all gael ei roi ar wefan yr eglwys (neu EBC) neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol eglwys (neu EBC) neu ei ddangos mewn cyfarfod eglwys (neu EBC).</li> <li>• Gallwch ymddangos yn adran newyddion eglwys i'r papur lleol.</li> <li>• Gall eich enw ymddangos yn y Blwyddiadur a Dyddiadur, Blwyddlyfr yr Henaduriaeth, Agendâu, a/neu gofnodion unrhyw gyfarfod a gynhelir yn fewnol yn EBC.</li> <li>• Gall eich enw ymddangos ar restr eglwys megis trefn darparu blodau, trefn organyddion, neu ar hysbysfwrdd yr eglwys.</li> <li>• Byddwn yn nodi eich enw, swm eich cyfraniad ac a oes treth yn cael ei had-hawlio at ddibenion cyfrifo a chofnodion.</li> <li>• Byddwn yn rhannu'r wybodaeth bersonol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn cael unrhyw ad-daliadau treth cymorth rhodd lle mae hynny'n gymwys.</li> <li>• Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg hon.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn</li> </ul>

	<p>archif y Llyfrgell Genedlaethol, a gall cyhoeddiadau felly gynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatâd Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gael gweld yr archifau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lle rydych wedi llofnodi <b>'Ffurflen 2: Caniatâd - Aelodau'</b> ac yn ôl y blychau a diciwyd gennych, gall eich manylion cyswllt, cyfraniadau ariannol a chymorth rhodd a adhawllir ar gyfraniadau ariannol ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol.</li> </ul>
<p><b>Amgylchiadau pan fyddwn yn anfon eich gwybodaeth bersonol y tu allan i AEE</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar adegau bydd angen inni anfon eich gwybodaeth bersonol i wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, er enghraifft, os byddwch yn ymweld ag eglwysi Presbyteraidd yn y gwledydd hynny. Mewn amgylchiadau felly bydd angen anfon rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol i'r eglwys dramor er mwyn trefnu eich ymweliad. Byddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau felly dim ond pan fydd gennym ganiatâd penodol gennych chi i wneud hynny.</li> </ul>
<p><b>Y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnyh nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn dibynnu ar y ffaith fod prosesu'ch gwybodaeth, er mwyn hwyluso'ch aelodaeth ac i ddarparu gofal bugeiliol, yn weithgareddau cyfreithlon i EBC.</li> <li>• Rydym yn dibynnu ar y ffaith eich bod wedi gwneud eich cred grefyddol yn hysbys drwy'r datganiad ffydd a wnaethoch wrth ddod yn aelod o EBC i ganiatáu inni gynnwys eich enw, llun recordiad sain neu fideo yn ein dogfennau, cyhoeddiadau, ar ein gwefan, ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, ar ein hysbysfwrdd ayb.</li> <li>• Rydym yn dibynnu ar y ffaith ei fod er budd dilys i ni i brosesu'r wybodaeth bersonol er mwyn prosesu eich cyfraniadau ariannol, ac i gael unrhyw ad-daliadau treth. Mae'r cyfraniadau ariannol hyn yn caniatáu EBC i hyrwyddo ei nodau a'i hamcanion. Drwy wneud cyfraniad ariannol rydych yn cefnogi'r amcanion hynny.</li> <li>• Os ac i'r graddau y bydd eich cyfraniadau ariannol i EBC yn datgelu eich credoau crefyddol, byddwn ond yn prosesu'r wybodaeth honno pan fo hynny'n digwydd fel rhan o'n gweithgareddau cyfreithlon.</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd eich rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, cyfraniadau ariannol, rhodd cymorth a hawliwyd ar gyfraniadau ariannol, dim ond yn yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol pan fyddwch wedi rhoi caniatâd penodol i hynny.</li> <li>• Yn angenrheidiol at ddibenion cyffredinol er budd y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff eich manylion cyswllt eu cadw cyhyd ag y byddwch yn aelod o EBC.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol at ddibenion ymchwil hanesyddol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol.</li> <li>• Caiff manylion am eich cyfraniadau ariannol eu cadw am 7 mlynedd at ddibenion adroddiadau ariannol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os na chaiff eich enw a'ch manylion cyswllt eu darparu, ni fydd modd i chi fod yn aelod o EBC.</li> <li>• Bydd methu â rhoi eich enw a'ch manylion cyfrif banc inni yn golygu na allwn brosesu unrhyw gyfraniadau ariannol ac eithrio arian parod neu siec.</li> </ul>

### **3.2 BLAENORIAID A DEILIAID SWYDDI (GAN GYNNWYS SWYDDOGAETH YN YR EGLWYS, E.E. ATHRO / ATHRAWES YSGOL SUL, TRYSORYDD, YSGRIFENNYDD)**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif teleffon a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>• Eich Dyddiad Geni os ydych yn ymddiriedolwr elusen;</li> <li>• Manylion eich Cyfrif Banc;</li> <li>• Eich cysylltiad ag EBC (sy'n datgelu'ch credoau crefyddol).</li> <li>• Eich ffotograff, a/neu recordiad awdio a/neu fideo ohonoch a wnaed yn ystod</li> </ul>
---	--

	gweithgaredd EBC, digwyddiad neu gyfarfod i'r graddau y gellir eich adnabod chi.
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y wybodaeth ei darparu gennych chi i'ch eglwys leol a/neu i Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol a / neu i'r pwyllgor rydych yn aelod ohono.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'ch manylion cyfrif banc mewn cysylltiad â threuliau sy'n ddyledus i chi;</li> <li>• Byddwn yn cofnodi eich enw a'r ffaith eich bod yn aelod o EBC a'ch bod yn Flaenor a/neu'n Ddeiliad Swydd;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol i ddarparu ichi wybodaeth sy'n berthnasol i chi fel Blaenor a/neu Ddeiliad Swydd, megis papurau cyfarfodydd a materion i'w trafod mewn cyfarfodydd (e.e. cyfarfodydd Blaenoriaid, cyfarfodydd Henaduriaeth; cyfarfodydd Cymdeithasfa, Cyfarfodydd y Gymanfa Gyffredinol a'i Byrddau, ei Phwyllgorau a'i Grwpiau);</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r ffaith eich bod yn Flaenor a/neu'n Ddeiliad Swydd a chyfnod y swydd at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<b>Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn rhannu'ch manylion cyswllt <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Adroddiad Blynyddol eich eglwys leol neu ei chylchlythyr neu daflen gyhoeddiadau (ac eraill fel sy'n briodol);</li> <li>• Yn Blwyddlyfrau Henaduriaethau lleol (a dogfennau/cyhoeddiadau eraill fel sy'n briodol);</li> <li>• Ym Mlwyddiadur a Dyddiadur EBC;</li> <li>• Yn Agendâu neu Gofnodion neu Weithrediadau unrhyw gyfarfod a gynhelir o fewn EBC;</li> <li>• Ar hysbysfwrdd yr eglwys</li> </ul> </li> </ul>

	<p>i alluogi unigolion o fewn EBC i gysylltu â chi yn eich swydd fel Blaenor a/neu Ddeiliad Swydd i drafod gwaith EBC.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydych yn Ymddiriedolwr Elusen, caiff eich manylion personol eu darparu i'r Comisiwn Elusennau a bydd eich enw yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn Elusennau gyda dolen i unrhyw elusennau eraill rydych yn ymddiriedolwr iddynt. Bydd eich enw a'ch swydd hefyd yn ymddangos yng nghyfrifon EBC sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Elusennau.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynnyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatâd Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gael gweld yr archifau.</li> <li>• Gallwch ymddangos mewn ffotograff a/neu recordiad awdio a/neu fideo o weithgaredd, digwyddiad neu gyfarfod EBC, a all gael ei roi ar wefan EBC neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol EBC neu ei ddangos mewn cyfarfod EBC.</li> <li>• Byddwn yn cadw'ch enw a manylion eich treuliau at ddibenion cyfrifo a chofnodion.</li> <li>• Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg honno.</li> </ul>
<p><b>Amgylchiadau pan fyddwn yn anfon eich gwybodaeth bersonol y tu allan i AEE</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar adegau bydd angen inni anfon eich gwybodaeth bersonol i wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, er enghraifft, os byddwch yn ymweld ag eglwysi Presbyteraidd yn y gwledydd hynny. Mewn amgylchiadau felly bydd angen anfon rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol i'r eglwys dramor er mwyn trefnu eich ymweliad. Byddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau felly dim ond pan fydd gennym ganiatâd penodol gennych chi i wneud hynny.</li> </ul>
<p><b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu ac i ddarparu ichi bapurau a dogfennau perthnasol a'u rhannu</li> </ul>

	<p>gydag aelodau eraill o EBC yn weithgareddau cyfreithlon i EBC er mwyn sicrhau bod yr Eglwys yn cael ei rhedeg yn effeithlon ac effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu y tu allan i EBC, er enghraifft, ym Mlwyddlyfr a Dyddiadur EBC, byddwn yn dibynnu ar y ffaith eich bod wedi gwneud eich cred grefyddol yn hysbys drwy'r datganiad ffydd a wnaethoch wrth ddod yn aelod o EBC ac wrth gael eich ordeinio yn Flaenor a/neu eich penodi fel Deiliad Swydd o fewn EBC.</li> <li>Angenrheidiol at ddibenion archifo er lles y cyhoedd neu at ddibenion hanesyddol.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff eich manylion cyswllt eu cadw cyhyd ag y byddwch yn Flaenor a/neu yn Ddeiliad Swydd yn EBC.</li> <li>Caiff manylion am dreuliau eu cadw am 7 mlynedd at ddibenion adroddiadau ariannol.</li> <li>Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. y Blwyddiadur a Dyddiadur eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol at ddibenion ymchwil hanesyddol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os na ddarperir eich enw a'ch manylion cyswllt, ni fyddwch yn gallu bod yn Flaenor na Deiliad Swydd yn EBC gan na fyddwn yn gallu darparu y wybodaeth sy'n berthnasol i chi yn eich swyddogaeth.</li> <li>Bydd methu â rhoi eich enw a'ch cyfeiriad inni a manylion eich cyfrif banc yn golygu na allwn brosesu unrhyw dreuliau.</li> </ul>

### **3.3 CYFRANWYR**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif teleffon a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>Manylion Eich Cyfrif Banc;</li> <li>A ydych yn talu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol;</li> </ul>
---	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich cysylltiad ag EBC (sy'n debygol o ddatgelu'ch credoau crefyddol).</li> </ul>
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff y wybodaeth ei darparu'n uniongyrchol gennych chi i'ch eglwys leol neu i Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol er mwyn prosesu eich cyfraniad (boed yn un cyfraniad neu'n gyfraniad rheolaidd) ac i gael unrhyw ad-daliad treth drwy gymorth rhodd.</li> <li>Efallai y byddwn yn defnyddio'r ffaith eich bod yn Gyfranwr at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<b>Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn nodi eich enw, swm eich cyfraniad ac a oes treth yn cael ei had-hawlio at ddibenion cyfrifo a chofnodion.</li> <li>Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn cael unrhyw ad-daliadau treth rhodd lle mae'n gymwys.</li> </ul> <p>Bydd y canlynol yn berthnasol DIM OND lle byddwch wedi rhoi caniatâd penodol ar Ffurflen 3, (os ydych wedi ticio rhai blychau, ond nid y cyfan, dim ond rhai o'r canlynol fydd yn weithredol).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall eich enw, eich manylion cyswllt, eich rhodd a chymorth rhodd a adhawliwyd ar eich cyfraniad ymddangos yn Adroddiad Blynyddol yr eglwys.</li> <li>Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol, ac mae'n bosib y bydd y cyfryw cyhoeddiadau a dogfennau felly yn cynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatâd Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gael gweld yr archifau.</li> <li>Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg honno.</li> </ul>
<b>Y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arny'n nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ei bod o fudd dilys inni brosesu'r wybodaeth bersonol i brosesu eich rhodd ac i gael unrhyw ad-daliadau treth. Mae'r rhoddion hyn yn caniatáu i EBC hyrwyddo'i hamcanion a'i diddordeb. Drwy roi rhodd rydych yn cefnogi'r amcanion hynny.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw eich rhodd i EBC yn datgelu eich cred grefyddol, ac i'r graddau y mae'n gwneud hynny, caiff y wybodaeth honno ei phrosesu dim ond lle mae'n digwydd fel rhan o'n gweithgareddau cyfreithlon, ac ni chaiff ei throsglwyddo y tu allan i EBC na'i chyhoeddi yn yr Adroddiad Blynnyddol heb eich caniatâd.</li> <li>Angenrheidiol at ddibenion archifo er lles y cyhoedd neu at ddibenion hanesyddol.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff eich manylion cyswllt a swm eich cyfraniadau) eu cadw am 7 mlynedd i ddibenion adrodd yn ariannol.</li> <li>Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynnyddol eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol, at ddibenion ymchwil hanesyddol, ac mae'n bosib y bydd y cyfryw cyhoeddiadau a dogfennau felly yn cynnwys eich manylion personol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd methu â rhoi eich enw a'ch manylion cyfrif banc inni yn golygu na allwn brosesu unrhyw gyfraniadau ariannol ac eithrio arian parod neu siec.</li> </ul>

### **3.4 UNIGOLION SY'N GYSYLLTIEDIG AG EBC (GWRANDAWYR, PLANT, POBL IFANC 16 A 17 OED NAD YDYNT YN AELODAU)**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif teleffon a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>Manylion eich Cyfrif Banc;</li> <li>A ydych yn talu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol;</li> <li>Eich cysylltiad ag EBC (a fydd yn datgelu eich cred grefyddol).</li> <li>Gwybodaeth am eich iechyd;</li> <li>Eich ffotograff, a/neu recordiad awdio a/neu fideo ohonoch wedi'i wneud yn ystod gweithgaredd, digwyddiad neu gyfarfod EBC</li> </ul>
<b>Sut rydym yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei darparu gennych chi i'ch eglwys leol.</li> </ul>

<p><b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol o ran Aelodau; ac i roi gwybod ichi am ddigwyddiadau a gweithgareddau o fewn yr eglwys; i ddarparu gofal bugeiliol; i anfon ceisiadau o gwmpas am weddïau; ac i nodi eitemau newyddion, e.e. mewn cylchlythyron, ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol er mwyn prosesu'ch cyfraniadau ariannol (un ai fel un cyfraniad unigol neu fel cyfraniad ariannol rheolaidd) ac i gael unrhyw ad-daliadau treth drwy gymorth rhodd.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'ch manylion cyfrif banc mewn cysylltiad ag unrhyw gyfraniadau ariannol a wnewch;</li> <li>• Byddwn yn cofnodi eich enw a'ch cysylltiad ag EBC;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich cysylltiad ag EBC at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<p><b>Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cadw'ch enw, swm eich cyfraniad ac a oes treth wedi ei had-hawlio at ddibenion cyfrifo a chofnodion.</li> <li>• Byddwn yn rhannu'r wybodaeth bersonol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn cael unrhyw ad-daliadau treth cymorth rhodd lle mae hynny'n gymwys.</li> </ul> <p>Bydd y canlynol ond yn berthnasol pan fyddwch wedi rhoi caniatâd penodol ar ffurflen 2, 3, 4 neu 5 (os ydych wedi ticio rhai o'r blychau ond nid pob un, yna dim ond rhai o'r canlynol fydd yn berthnasol)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall eich enw/llun chi gael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol eich eglwys leol.</li> <li>• Gallwch chi ymddangos mewn cylchlythyr lleol neu genedlaethol at aelodau (e.e. Goleuad, Treasury) a all gael ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i werthu hefyd i'r cyhoedd.</li> <li>• Gallwch chi ymddangos mewn recordiad awdio a/neu fideo o weithgaredd eglwys, digwyddiad neu gyfarfod eglwys, a all gael ei roi ar wefan yr eglwys neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol eglwys neu ei ddangos mewn cyfarfod eglwys.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallwch ymddangos yn adran newyddion eglwys i'r papur lleol.</li> <li>• Gall eich enw chi ymddangos ym Mlwyddlyfr yr Henaduriaeth, y Blwyddiadur a Dyddiadur, Agendâu, neu Gofnodion neu Weithrediadau unrhyw gyfarfod a gynhelir yn fewnol yn EBC.</li> <li>• Gall eich enw ymddangos ar restr eglwys megis trefn darparu blodau, trefn organyddion, neu ar Hysbysfwrdd yr eglwys.</li> <li>• Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg honno.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatâd Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraid Cymru i gael gweld yr archifau</li> <li>• Gall eich manylion cyswllt, eich cyfraniadau ariannol a chymorth rhodd a ad-hawliwyd ar gyfraniadau ariannol ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol.</li> </ul>
<p><b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu, i ddarparu gofal bugeiliol ac i ddarparu gwybodaeth ichi am weithgareddau EBC yn digwydd dim ond lle mae hynny'n rhan o'n gweithgareddau cyfreithlon. Ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei throsglwyddo y tu allan i'r eglwys heb eich caniatâd, ac eithrio lle mae'r gyfraith yn mynnu hynny.</li> <li>• Ei bod o fudd dilys inni brosesu'r wybodaeth bersonol i brosesu eich cyfraniadau ariannol ac i gael unrhyw ad-daliadau treth. Mae'r cyfraniadau ariannol hyn yn caniatáu i EBC hyrwyddo'i hamcanion a'i diddordeb. Drwy wneud cyfraniadau ariannol rydych yn cefnogi'r amcanion hynny.</li> <li>• Os yw eich cyfraniadau ariannol i EBC yn datgelu eich cred grefyddol, ac i'r graddau y mae'n gwneud hynny, caiff y wybodaeth honno ei phrosesu dim ond lle mae'n digwydd fel rhan o'n gweithgareddau cyfreithlon.</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff eich cyfraniadau ariannol a threth cymorth rhodd a ad-hawliwyd eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol dim ond lle byddwch wedi rhoi caniatâd penodol.</li> <li>• Os yw eich plentyn/plant dan 16 oed, bydd ei enw/ eu henwau, lluniau yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol, cylchlythyron, gwefan, tudalennau cyfryngau cymdeithasol a bydd eu cyfraniadau ariannol yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol dim ond lle byddwch wedi rhoi caniatâd penodol.</li> <li>• Yn angenrheidiol at ddibenion cyffredinol er budd y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff eich manylion cyswllt eu cadw cyhyd ag y byddwch yn gysylltiedig ag EBC.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol at ddibenion ymchwil hanesyddol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol.</li> <li>• Caiff manylion eich cyfraniadau ariannol eu cadw am 7 mlynedd at ddibenion cofnodion ariannol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os na chaiff eich enw a'ch manylion cyswllt chi eu darparu, ni fyddwn yn gallu parhau i gysylltu â chi.</li> </ul>

### **3.5 AELODAU O EGLWYSI ERAILL**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif ffôn a/neu eich cyfeiriad e-bost);</li> <li>• Eich ffotograff, a/neu recordiad awdio a/neu fideo ohonoch wedi'i wneud yn ystod gweithgaredd eglwys, digwyddiad neu gyfarfod a drefnir gan EBC</li> <li>• Eich cysylltiad ag EBC (a fydd yn datgelu eich cred grefyddol).</li> </ul>
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff ei darparu gennych chi i'r eglwys EBC leol.</li> </ul>

<p><b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu;</li> <li>• Byddwn yn cofnodi'ch enw a'r eglwys lle rydych yn aelod ac a ydych yn Weinidog neu'n Flaenor yn yr eglwys honno;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'ch enw ar restr bregethu a/neu restr o unigolion ar bwyllgor;</li> <li>• Byddwn yn defnyddio'r ffaith eich bod ar y rhestr bregethu a/neu ar bwyllgor at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<p><b>Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall eich enw ymddangos yng nghylchlythyr, taflen newyddion, hysbysfwrdd, Adroddiad Blynyddol yr eglwys.</li> <li>• Gall eich enw ymddangos ar Agenda a/neu Gofnodion unrhyw gyfarfod a gynhelir yn fewnol yn EBC.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatâd Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gael gweld yr archifau.</li> <li>• Gallwch ymddangos mewn recordiad awdio a/neu fideo o weithgarwch, digwyddiad neu gyfarfod eglwys, a all gael ei roi ar wefan yr eglwys neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol eglwys neu ei ddangos mewn cyfarfod eglwys.</li> <li>• Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw symiau a dalwyd ichi (e.e. treuliau) ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg honno.</li> </ul>
<p><b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol ac i ddarparu ichi'r papurau a'r dogfennau perthnasol, ac i rannu gydag aelodau eraill o EBC, yn weithgareddau cyfreithlon i EBC er mwyn sicrhau bod yr Eglwys yn gweithio'n effeithlon.</li> <li>• Rydym yn dibynnu ar y ffaith eich bod wedi gwneud eich cred grefyddol yn hysbys drwy'r datganiad ffydd a wnaethoch wrth ddod yn aelod o'ch eglwys, i ganiatáu inni gynnwys eich enw yn</li> </ul>

	<p>yr Adroddiad Blynyddol, mewn cylchlythyrau neu ar ein gwefan.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ofynnol at ddibenion archifo er lles y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff eich manylion cyswllt eu cadw tra byddwch yn pregethu yn yr eglwys leol a/neu tra byddwch yn gwasanaethu ar y pwyllgor EBC.</li> <li>• Caiff nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennau, e.e. Adroddiadau Blynyddol, eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol at ddibenion ymchwil hanesyddol, a gall cyhoeddiadau a dogfennau felly gynnwys eich manylion personol.</li> <li>• Lle bydd unrhyw symiau wedi'u talu ichi gan EBC, bydd eich manylion cyswllt a'r symiau a dalwyd ichi yn cael eu cadw am 7 mlynedd am resymau adroddiadau ariannol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os na fyddwch yn darparu eich enw a'ch manylion cyswllt, ni fydd modd i chi bregethu mewn eglwys EBC na gwasanaethu ar bwyllgor EBC.</li> </ul>

### **3.6 POBL SY'N HURIO ADEILADAU EGLWYSI, GAN GYNNWYS TENANTIAID**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad post, rhif teleffon a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>• Manylion eich Cyfrif Banc;</li> </ul>
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff ei darparu gennych chi i'ch eglwys leol.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol er mwyn cyflawni'r contract rhyngom.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio manylion eich cyfrif banc mewn cysylltiad â thaliadau a wneir am hurio'r adeilad neu daliadau rhent.</li> </ul>
<b>Gyda phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall eich enw a'ch manylion cyswllt ymddangos mewn cylchgrawn eglwys neu ar wefan neu hysbysfwrdd (yn gymwys yn unig i grwpiau sy'n hurio adeilad eglwys).</li> <li>• Lle mae'n ofynnol i'r adroddiadau ariannol gael eu harchwilio'n annibynnol, caiff eich</li> </ul>

	gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda'r person sy'n craffu neu'r archwilydd annibynnol er mwyn cyflawni'r dasg honno.
<b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnydd o'ch gwybodaeth bersonol i sicrhau gweithredu cytundeb rhyngom</li> <li>Defnydd o'ch gwybodaeth bersonol i sicrhau fod trefniadau hurio neu denantiaeth yn cael eu gweinyddu'n hwylus ac effeithiol, a'u bod o fudd dilys i EBC.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am hyd y contract ac am 7 mlynedd wedyn.</li> </ul>

### **3.7 UNIGOLION SY'N CYSYLLTU Â NI GYDAG YMHOLIADAU /CWYNION**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich manylion cyswllt (megis eich rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>Manylion eich ymholiad;</li> <li>Eich cysylltiad ag EBC (a fydd yn datgelu'ch credoau crefyddol) os yw'n gymwys.</li> </ul>
<b>Sut rydym yn cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei darparu gennych chi wrth i chi gysylltu â ni (e.e. wrth ffonio neu anfon neges e-bost).</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol i ddelio â'ch ymholiad/cwyn;</li> <li>Byddwn yn gwneud cofnod o'ch ymholiad/cwyn at ddibenion gweinyddu mewnol.</li> </ul>
<b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arny nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae defnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn delio â'ch ymholiad/cwyn yn seiliedig ar ein buddiant cyfreithlon yn sicrhau bod yr Eglwys yn cael ei rhedeg yn effeithlon ac effeithiol.</li> <li>Mae cadw cofnod o'ch ymholiad yn seiliedig ar ein buddiant cyfreithlon yn sicrhau ein bod yn gallu rhedeg Eglwys effeithlon.</li> <li>Lle bydd manylion eich ymholiad yn datgelu eich cred grefyddol oherwydd eich cysylltiad neu'ch ymwneud ag EBC, byddwn yn</li> </ul>

	<p>prosesu'r wybodaeth honno dim ond lle bydd hynny o fewn ein gweithgareddau cyfreithlon, ac ni chaiff ei throsglwyddo y tu allan i EBC heb eich caniatâd.</p>
<p><b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff cofnodion am eich ymholiad/cwyn a dogfennau cysylltiedig eu cadw nes i'r mater gael ei ddatrys gan fodloni pawb.</li> </ul>

### **3.8 UNIGOLION SY'N DEFNYDDIO'N GWEFAN**

<p><b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys y cyfeiriad protocol rhyngrwyd a ddefnyddir i gysylltu'r cyfrifiadur â'r rhyngrwyd, y math o borwr a'r fersiwn, gosod parth amser, dulliau plygio i mewn i'r porwr a'r fersiynau, system weithredu a phlatfform;</li> <li>• Gwybodaeth am eich ymweliad, gan gynnwys y Lleolwyr Adnoddau Unffurf ("URL"), ffrwd glicio i'n gwefan, drwyddi ac ohoni (gan gynnwys dyddiad ac amser), amserau ymateb tudalennau, gwallau lawrlwytho, hyd ymweliad â thudalennau penodol a dulliau a ddefnyddir i bori oddi ar y tudalen.</li> </ul>
<p><b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cawn rywfaint o'r wybodaeth yn awtomatig pryd bynnag y byddwch yn defnyddio'n gwefan mewn modd ddienw;</li> <li>• Caiff rhywfaint o'r wybodaeth ei chasglu gennym bob tro y byddwch yn defnyddio ein gwefan, drwy ddefnyddio cwcis. Mae rhagor o wybodaeth am y cwcis a ddefnyddiwn, ac i ba ddibenion y byddwn yn eu defnyddio, i'w chael yn ein Polisi Cwcis.</li> </ul>
<p><b>At ba ddibenion fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y wybodaeth a ddefnyddir gennym i'n helpu i wella'n gwefan.</li> <li>• Caiff gwybodaeth a gesglir wrth inni ddefnyddio cwcis ei defnyddio yn y ffyrdd a ddisgrifir yn ein Polisi Cwcis.</li> </ul>
<p><b>Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arny'n nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae casglu a defnyddio'r wybodaeth gennym wedi'i seilio ac ein buddiannau dilys mewn sicrhau bod ein gwefan yn hawdd ei thrin ac yn apelio at y defnyddwyr.</li> </ul>

<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ydym yn cadw gwybodaeth bersonol lle gellir adnabod rhywun, ond rydym yn cadw data defnydd ar ffurf ddiennw. Caiff y data eu cadw'n barhaol ar lwyfan "Google Analytics".</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os byddwch yn analluogi ein Cwcis, byddwch yn methu â defnyddio rhai rhannau/swyddogaethau o'n gwefan. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yn ein Polisi Cwcis.</li> </ul>

### **3.9 UNIGOLION SY'N YMDDANGOS YN EIN CYLCHLYTHYRON NEU ERTHYGLAU**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich manylion cyswllt (megis eich cyfeiriad post, rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost);</li> <li>Eich lleoliad daearyddol;</li> <li>Eich eglwys;</li> <li>Eich cysylltiad ag EBC sy'n debygol o ddatgelu'ch credoau crefyddol;</li> <li>Manylion personol eraill a rowch inni fel rhan o'ch tystiolaeth.</li> </ul>
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei darparu gennych wrth ichi gytuno i ymddangos mewn cylchlythyr neu erthygl.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddir eich manylion cyswllt at ddibenion gweinyddu;</li> <li>Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddarperir yn yr erthygl/cylchlythyr;</li> </ul>
<b>Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff yr erthygl/cylchlythyr ei gyhoeddi yn y cylchgrawn EBC perthnasol, a/neu ei roi ar wefan yr eglwys (neu EBC) neu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol yr eglwys neu EBC.</li> </ul>
<b>Y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arny'n nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu o les cyfreithlon i chi ac i EBC er mwyn hwyluso cyhoeddi'r erthygl/cylchlythyr.</li> <li>Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ysgrifennu a chyhoeddi'r cylchlythyr/erthygl ar sail y canlynol:-</li> </ul>

	<p>Aelodau, y ffaith eich bod yn amlwg wedi mynegi eich cred grefyddol yn gyhoeddus.</p> <p>Eraill, caniatâd penodol.</p>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff erthyglau a chylchlythyron eu cadw yn archif y Llyfrgell Genedlaethol at ddibenion ymchwil hanesyddol.</li> </ul>

### **3.10 UNIGOLION YR YDYM YN EU CYDNABOD YN ARIANNOL I DDARPARU GWASANAETHAU I NI**

<b>Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei defnyddio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw a'ch manylion cyswllt;</li> <li>• Manylion eich cyfrif banc.</li> </ul>
<b>Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darperir gennych wrth ichi gytuno i ddarparu gwasanaethau inni.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I ddod i gytundeb â chi, i gysylltu â chi, i weinyddu'r cytundeb am wasanaethau ac i'ch talu.</li> </ul>
<b>Y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arny'n nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddod i gytundeb â chi am wasanaethau, am ohebiaeth mewn perthynas â'r gwasanaethau a materion cysylltiedig ac i dalu am wasanaethau a ddarparwyd yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau cyn llunio contract gyda chi ac i weithredu'r contract rhyngom.</li> </ul>
<b>Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol cyhyd ag y darperir gwasanaethau ac am 7 mlynedd wedyn rhag ofn y bydd unrhyw anghydfod contractiol, ac i roi gwybodaeth ariannol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â darparu/caniatáu inni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Heb eich gwybodaeth bersonol, ni fyddwn yn gallu derbyn gwasanaeth gennych na'ch talu.</li> </ul>

#### 4. YMWNEUD Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Bydd unrhyw bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol neu sylwadau a anfonwch atom (ar dudalen Facebook EBC, er enghraifft) yn cael eu rhannu dan delerau plattform perthnasol y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook neu Twitter) lle byddant wedi eu hysgrifennu, a gellid eu gwneud yn gyhoeddus. Pobl eraill sy'n rheoli'r plattformau hyn, nid ni. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am y math hwn o rannu. Felly, cyn ichi wneud unrhyw sylwadau am unrhyw beth, dylech adolygu telerau ac amodau a pholisïau preifatrwydd y plattformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwch. Fel hynny byddwch yn deall sut y byddant yn defnyddio'ch gwybodaeth, pa wybodaeth yn ymwneud â chi y byddan nhw'n ei gosod yn y cylch cyhoeddus, a sut gallwch eu hatal rhag gwneud hynny os nad ydych yn fodlon ar hynny.

#### 5. GWYBODAETH AM SYSTEM GWNEUD PENDERFYNIADAU YN AWTOMATIG

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomatig pan fydd system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth gan berson.

Dydyn ni ddim yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau prosesu, sy'n golygu gwneud penderfyniadau amdanoch gan ddefnyddio dulliau wedi'u hawtomeiddio.

#### 6. PRYD BYDDWN YN RHANNU'CH GWYBODAETH BERSONOL GYDA PHOBL ERAILL?

Weithiau bydd angen inni rannu'ch gwybodaeth bersonol gydag eraill. Mae'r adran hon yn gosod allan fanylion gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth bersonol a pham (mae peth o'r wybodaeth eisoes wedi ei chyflwyno yn adran 3). Mae hefyd yn dweud wrthyfych am ein sail gyfreithiol dros wneud hynny dan gyfraith diogelu data, a chamau y byddwn yn eu cymryd i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol.

Sylwch na fyddwn byth yn gwerthu'ch gwybodaeth bersonol i drydydd partion.

##### 6.1 PARTNERIAID GWASANAETH

<p><b>Gwybodaeth am ein partneriaid gwasanaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ein partneriaid gwasanaeth yw busnesau rydym yn gwneud contract â nhw. Maen nhw'n cynnwys:</li> <li>• Cyflenwyr ac isgcontractwyr;</li> <li>• Cyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau TG;</li> <li>• Dydyn ni ddim wedi cynnwys enwau ein partneriaid gwasanaeth oherwydd byddwn yn delio â gwahanol ddarparwyr gwasanaeth o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'n darparwyr gwasanaeth presennol, cysylltwch â'ch eglwys neu swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol.</li> </ul>
<p><b>Pam mae angen inni rannu'ch gwybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn defnyddio cyflenwyr ac isgcontractwyr i gyflawni rhai agweddau penodol ar ein contractau gyda'n tenantiaid.</li> </ul>



	<p>Er enghraifft, darparu gwasanaethau cynnal a chadw;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn defnyddio cyflenwyr eitemau a gwasanaethau TG mewn cysylltiad â chyflenwi ein rhwydwaith TG, ei chynnal a'i chadw a/neu ei gwella.</li> </ul>
<b>Y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnyn nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhannu'ch data personol gyda chyflenwyr ac isgcontractwyr yn angenrheidiol er mwyn cynnal ein contract gyda chi;</li> <li>Mae rhannu'ch data personol gyda busnesau a ddefnyddiwn i gyflenwi ein rhwydwaith TG, ei chynnal a'i chadw a/neu ei gwella wedi'i seilio ar ein buddiannau dilys i sicrhau y gall yr Eglwys weithio'n iawn ac yn effeithlon a bod ein rhwydwaith TG yn ddiogel.</li> </ul>

## **6.2 RHANNAU ERAILL O EBC**

<b>Gwybodaeth am wahanol adrannau EBC</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr data unigol yw EBC, ond gall fod amgylchiadau lle mae angen i'ch gwybodaeth bersonol, yn ystod gweithgareddau cyfreithlon EBC, gael ei rhannu gyda gwahanol adrannau o fewn EBC.</li> <li>Mae gwybodaeth am adeiladwaith EBC i'w cael yn y Llawlyfr Trefn a Rheolau.</li> </ul>
<b>Pam mae angen inni rannu'ch gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ofynnol yn ystod gweithgareddau cyfreithlon EBC, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> <li>i rannu manylion cyswllt rhwng eglwysi, Henaduriaethau, Cymdeithasfa, Cymanfa Gyffredinol</li> <li>i rannu gwybodaeth am waith yr eglwysi, yr Henaduriaethau, y Gymdeithasfa, y Gymanfa Gyffredinol a'i Byrddau, ei Hadrannau a'i Grwpiau.</li> </ul> </li> </ul>
<b>Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd rhannu data personol o fewn EBC yn cael ei seilio ar gyflawni hynny yn ystod gweithgareddau cyfreithlon gyda chamau diogelwch priodol gan EBC.</li> </ul>

<p><b>Pa gamau diogelwch y byddwn yn eu cymryd?</b></p>	<p>Caiff data personol eu rhannu o fewn EBC dim ond lle gellir gwneud hynny'n deg ac yn gyfreithlon, yn unol ag egwyddorion diogelu data a chyfreithiau diogelu data. I'r diben hwn, mae EBC yn ymdrechu i sicrhau;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mai data personol y mae angen eu rhannu mewn cysylltiad â gweithrediadau a gweithgareddau EBC yn unig sy'n cael eu rhannu;</li> <li>• bod data personol yn cael eu rhannu dim ond pan fydd yn ofynnol ac yn briodol gwneud hynny;</li> <li>• bod data personol yn cael eu rhannu ar y sail bod angen rhoi gwybod, ac nid eu rhannu'n fwy eang nag sydd eisiau; a</li> <li>• a bod data personol yn cael eu rhannu'n ddiogel.</li> </ul>
---	--

### **6.3 TRYDYDD PARTÏON ERAILL**

Yn ogystal â'r sefyllfaoedd uchod, gall fod angen hefyd inni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon yn yr amgylchiadau sy'n dilyn:

<p><b>Gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol</b></p>	<p>Weithiau gall fod angen inni ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol i gyrff megis cyrff rheoleiddio, y llysoedd a'r heddlu (gan gynnwys y Panel Diogelu Cydenwadol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol inni a/neu i atal twyll neu droseddu.</p>
<p><b>Cyngor proffesiynol a chamau cyfreithiol</b></p>	<p>Gall fod angen inni ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i'n cyngorwyr proffesiynol (er enghraifft, ein cyfreithwyr a'n cyfrifyddion) mewn perthynas â darparu cyngor proffesiynol ganddynt.</p>
<p><b>Cyfieithwyr</b></p>	<p>Gall eich gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys mewn dogfennau sy'n cael eu cyfieithu gan gyfieithwyr.</p>
<p><b>Darparwyr Gwasanaeth Argraffu</b></p>	<p>Gall eich gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys mewn dogfennau neu gylchlythyron sy'n cael eu</p>

	hargraffu (ac weithiau eu dosbarthu) gan ddarparwyr gwasanaeth argraffu.
<b>Eglwysi ac Enwadau eraill, a chyrff rhyng-enwadol</b>	Gall fod angen datgelu'ch enw a'ch manylion cyswllt fel rhan o waith EBC (e.e er mwyn mynd i gyfarfod pwyllgor neu i bregethu).
<b>Darparwyr gwasanaeth megis Trefnwyr Teithiau, Gwestai, Prifysgolion</b>	Gall fod angen datgelu'ch enw a'ch manylion cyswllt er mwyn gwneud trefniadau teithio mewn cysylltiad â gwaith EBC (e.e. i fynd i'r Gymanfa Gyffredinol).

## **7. AMGYLCHIADAU PAN FYDDWN YN ANFON EICH GWYBODAETH BERSONOL Y TU ALLAN I AEE**

Weithiau bydd angen inni anfon eich gwybodaeth bersonol i wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, er enghraifft, os byddwch yn ymweld ag eglwysi Presbyteraidd yn y gwledydd hynny neu'n mynd i gynhadledd CWM. Yn yr amgylchiadau hynny bydd angen inni anfon rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol i'r eglwys dramor er mwyn trefnu'ch ymweliad. Byddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol dim ond mewn amgylchiadau lle bydd gennym eich caniatâd penodol i wneud hynny.

## **8. SUT YDYM YN CADW'CH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL?**

Byddwn yn cymryd camau amrywiol i warchod eich gwybodaeth bersonol tra bydd yn ein meddiant, gan gynnwys:

- gweithredu camau diogelwch priodol i warchod ein rhwydwaith mewnol TG;
- gweithredu polisiau diogelwch data mewnol a hyfforddiant i aelodau staff mewn perthynas â cyfryw bolisiau.

## 9.PA HAWLIAU SYDD GENNYCH DAN GYFRAITH DIOGELU DATA?

Dan gyfraith diogelu data, mae gennych nifer o wahanol hawliau'n ymwneud â defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Yn y tabl isod mae crynodeb o'r hawliau hynny a'ch rhwymedigaethau. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau a'ch rhwymedigaethau i'w chael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth <<https://ico.org.uk/>>

Eich hawliau	Beth mae hyn yn ei olygu	Beth yw ein rhwymedigaethau ni
<b>Hawl i gael gweld</b>	Hawl yw hyn ichi gael gweld eich data personol ac amrywiol fathau o wybodaeth atodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid inni ddarparu ichi gopi o'ch gwybodaeth bersonol a'r wybodaeth atodol arall heb oedi amhriodol, ac o fewn 1 mis i dderbyn eich cais;</li> <li>Ni allwn godi tâl arnoch am wneud hynny, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol (megis pan fyddwch yn gwneud cais am ragor o gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol).</li> </ul>
<b>Hawl i gael cywiro data personol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hyn i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid inni gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn heb oedi amhriodol, ac o fewn 1 mis i dderbyn eich cais;</li> <li>Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid inni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r rhai sydd wedi'i chael i ddweud wrthynt fod angen i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chywiro.</li> </ul>
<b>Hawl i ddileu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hyn i gael dileu eich</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'n hawl hon yn gymwys, rhaid</li> </ul>

	<p>gwybodaeth bersonol neu i'w gwaredu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r hawl hon yn gymwys dim ond mewn rhai amgylchiadau (megis lle na fydd arnom angen y wybodaeth bersonol at y dibenion y cafodd ei chasglu).</li> <li>• Mae gennym hawl i wrthod dileu neu symud eich data personol mewn rhai amgylchiadau.</li> </ul>	<p>inni ddileu neu waredu eich gwybodaeth bersonol heb oedi amhriodol, ac o fewn 1 mis i dderbyn eich cais;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid inni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r rhai sydd wedi'i chael i ddweud wrthynt fod rhaid i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu.</li> </ul>
<b>Hawl i gael cludo data</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hawl yw hyn i gael ac ail-ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at eich dibenion eich hun;</li> <li>• Mae'n cynnwys hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth bersonol gael ei throsglwyddo i gorff arall (lle mae'n dechnegol ymarferol).</li> <li>• Mae'r hawl hon yn gymwys mewn rhai amgylchiadau'n unig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r hawl hon yn gymwys, rhaid inni ddarparu'ch gwybodaeth bersonol i chi ar ffurf strwythuredig a ddefnyddir yn gyffredin ac yn rhesymol ar beiriannau;</li> <li>• Eto, rhaid inni weithredu heb oedi amhriodol, ac o fewn 1 mis i dderbyn eich cais;</li> <li>• Ni allwn godi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.</li> </ul>
<b>Hawl i wrthwynebu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hawl yw hyn i wrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol.</li> <li>• Mae'r hawl yn gymwys mewn rhai amgylchiadau penodol yn unig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os byddwch yn gwrthwynebu ein bod yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol, rhaid inni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn y modd yma cyn</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallwch ddefnyddio'r hawl hon i herio'r ffaith ein bod yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar sail ein buddiannau dilys;</li> <li>• Gallwch ddefnyddio'r hawl hon hefyd i wrthwynebu'r ffaith ein bod yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol.</li> </ul>	<p>gynted ag y derbyniwn eich cais.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os byddwch yn gwrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd eraill, bydd yr angen i ni beidio a defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.</li> </ul>
<b>Hawl i gyfyngu ar brosesu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hawl yw hyn i atal neu gyfyngu ar prosesu'ch gwybodaeth bersonol.</li> <li>• Mae'r hawl hon yn gymwys mewn amrywiol amgylchiadau, gan gynnwys amheuaeth gennyhych nad yw'r wybodaeth yn gywir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os bydd yn ofynnol inni gyfyngu ar brosesu'ch gwybodaeth bersonol, byddwn yn gallu ei storio ond nid ei defnyddio fel arall.</li> <li>• Gallwn gadw dim ond digon o wybodaeth amdanoch i sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol.</li> <li>• Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid inni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â nhw i ddweud wrthynt am y cyfyngiad ar ddefnydd.</li> </ul>

Os dymunwch ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau, gallwch wneud cais drwy gysylltu â swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol ([swyddfa.office@ebcpcw.org.uk](mailto:swyddfa.office@ebcpcw.org.uk) a/neu 029 2062 7465. Os byddwch yn gofyn am ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau, mae gennym hawl i ofyn ichi ddarparu unrhyw wybodaeth a all fod yn ofynnol er mwyn cadarnhau eich hunaniaeth.



## 10. PRYD A SUT GALLWCH CHI DYNNU'CH CANIATÂD YN ÔL

Os byddwch wedi rhoi eich caniatâd inni brosesu'ch gwybodaeth bersonol, gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl unrhyw bryd. I wneud hynny, cysylltwch â'ch eglwys leol.

## 11. SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI A PHWY SY'N GORUCHWYLIO EIN BOD YN CYDYMFFURFIO Â CHYFRAITH DIOGELU DATA?

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd sy'n dilyn:

<b>Cyfeiriad post</b>	Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel Tabernacl, 81 Ffordd Merthyr, Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	Swyddfa.office@ebcpcw.org.uk
<b>Rhif ffôn</b>	029 20627465

Rydym wedi penodi'r Pennaeth Cefnogaeth Strategol i oruchwylio ein bod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, neu os dymunwch wneud cwyn, cysylltwch â'n Pennaeth Cefnogaeth Strategol.

## 12. HAWL I GWYNO WRTH SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH

Os byddwn yn methu â delio â chwyn mewn ffordd sy'n eich bodloni, neu os byddwch yn anfodlon gyda'r modd yr ydym yn defnyddio'ch data personol, mae gennych hawl hefyd i gwyno unrhyw bryd i awdurdod goruchwylio'r DG ar gyfer materion diogelu data, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## 13. NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os byddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol, byddwn yn rhoi hysbysiad preifatrwydd newydd ichi. Mae hefyd yn bosib y byddwn o bryd i'w gilydd yn defnyddio ffyrdd eraill i'ch hysbysu am brosesu eich gwybodaeth bersonol.